# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 4

NEWIDIADAU MEWN TREFNIADAU GWEITHREDIAETH

## PENNOD 1

MABWYSIADU FFURF WAHANOL AR WEITHREDIAETH

*Dehongli*

### 47 Dehongli

Yn y Bennod hon—

ystyr "cynigion" ("*proposals*") yw cynigion o dan adran 38;

ystyr "ffurf arfaethedig ar weithrediaeth" ("*proposed form of executive*") yw'r ffurf ar weithrediaeth y mae awdurdod lleol, yn ei gynigion, yn arfaethu dechrau ei gweithredu;

ystyr "ffurf bresennol ar weithrediaeth" ("*existing form of executive*") yw'r ffurf ar weithrediaeth sy'n cael ei gweithredu gan awdurdod lleol sy'n gwneud cynigion;

ystyr "newid mewn trefniadau gweithrediaeth" *("change of executive arrangements")* yw'r newid mewn trefniadau gweithrediaeth a gynigir yn y cynigion.